

**Arolygiad o dan Adran 28
Deddf Addysg 2005**

Adroddiad ar Ansawdd Addysg yn

**Ysgol Waunfawr
Waunfawr
Gwynedd
LL55 4LJ**

Rhif yr Ysgol: 6612113

Dyddiad yr Arolygiad: 28/04/09

gan

**Jean Marshall
78668**

Dyddiad Cyhoeddi: 02/07/09

O dan rif contract Estyn: 1117908

® Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2009: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael o'r ysgol. O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad yn ddi-dâl i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost ailgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad.

Arolygwyd Ysgol Waunfawr fel rhan o raglen genedlaethol arolygu ysgolion. Diben arolygu yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a gwella'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion. Bwriedir i arolygu pob ysgol o fewn cylch chwe blynedd hefyd roi mwy o wybodaeth i rieni am berfformiad ysgol eu plentyn.

Cynhaliwyd yr arolygiad o Ysgol Waunfawr rhwng 28/04/09 a 29/04/09, gan dîm annibynnol o arolygwyr, wedi'u harwain gan Jean Marshall. Comisiynwyd yr arolygiad gan Estyn, sef corff statudol sy'n annibynnol ar, ond a ariennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Roedd yn ofynnol i'r tîm adrodd ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol, ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth a'r cyfraniad a wneir gan yr ysgol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei disgyblion.

Mae'r raddfa pum pwynt a ddefnyddir i gynrychioli'r holl farnau arolygu yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

Gradd 1	da gyda nodweddion rhagorol
Gradd 2	nodweddion da a dim diffygion pwysig
Gradd 3	nodweddion da'n gorbwyso diffygion
Gradd 4	rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig
Gradd 5	llawer o ddiffygion pwysig

Mae tri math o arolygiad.

Ar gyfer **pob** arolygiad, ceir adroddiad ysgrifenedig ar saith cwestiwn allweddol.

Ar gyfer arolygiadau **byr**, ni cheir unrhyw adroddiadau pwnc.

Ar gyfer arolygiadau **safonol**, ceir adroddiadau ar chwe phwnc hefyd.

Ar gyfer arolygiadau **llawn**, ceir adroddiadau ar bob pwnc hefyd.

Estyn sy'n penderfynu pa fath o arolygiad y bydd ysgol yn ei gael, yn bennaf ar sail ei pherfformiad yn y gorffennol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cael arolygiad safonol. Mae pob ysgol feithrin, ysgol arbennig, unedau cyfeirio disgyblion ac unrhyw ysgol newydd neu ysgol sydd wedi uno yn cael arolygiad llawn.

Cafodd yr ysgol hon arolygiad **byr**.

Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALIau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Sector cynradd:

Blwyddyn	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Sector uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn ymdrin â phedwar cyfnod allweddol fel a ganlyn:

Cyfnod allweddol 1	Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Cynnwys	Tudalen
Cyd-destun	6
Crynodeb	7
Argymhellion	11
Safonau	12
Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	12
Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant	15
Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	15
Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	17
Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?	20
Arweinyddiaeth a rheolaeth	22
Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?	22
Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	23
Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	24
Ymateb yr ysgol i'r arolygiad	27
Atodiadau	
1 Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol	28
2 Data a dangosyddion ysgol	29
3 Canlyniadau asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol	30
4 Sail dystiolaeth yr arolygiad	32
5 Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu	33

Cyd-destun

Natur y darparwr

- 1 Lleolir Ysgol Waunfawr yng nghanol pentref gwledig Waunfawr heb fod yn bell o dref Caernarfon yng Ngwynedd. Mae'n gwasanaethu'r pentref a'r ardaloedd gwledig o amgylch. Caiff yr ysgol ei chynnal gan Awdurdod Lleol (ALI) Gwynedd.
- 2 Derbynnir plant i'r ysgol, yn rhan amser, yn y mis Medi yn dilyn eu pen blwydd yn dair oed, ac yn llawn amser yn y mis Medi yn dilyn eu pen blwydd yn bedair oed. Yn ystod yr arolygiad, roedd 19 o blant meithrin rhan amser a 115 o ddisgyblion llawn amser ar gofrestr yr ysgol.
- 3 Daw oddeutu 56% o'r disgyblion o gartrefi lle siaredir y Gymraeg fel prif iaith y cartref, ond mae oddeutu 96% yn siarad Cymraeg i safon iaith gyntaf. Disgrifir yr ardal gan yr ysgol fel un nad yw'n ffyniannus nac o dan anfantais economaidd. Mae'r disgyblion yn cynrychioli'r ystod llawn o allu. Mae canran y disgyblion (11%) sydd â'r hawl i dderbyn cinio ysgol am ddim yn is na'r canrannau sirol a chenedlaethol.
- 4 Mae 32 o ddisgyblion (26%) wedi eu harenwi gan yr ysgol fel rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig (AAA) ac mae pump o'r rhain ar ddatganiad AAA. Mae'r ALI yn cyflogi 11 o gymorthyddion un-i-un ar gyfer y disgyblion hyn.
- 5 Addysgir y disgyblion gan bedwar o athrawon llawn amser, gan gynnwys y pennaeth, a thri athro rhan amser. Yn ystod yr arolygiad, roedd dau ddosbarth dan ofal athrawon cyflenwi. Cyflogir tri chymhorthydd llawn amser ac un rhan amser ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Mae dosbarthiadau'r Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 1 (CA1), a dosbarth Blwyddyn 5 a 6 yn cynnwys disgyblion o oedrannau cymysg.
- 6 Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym Medi 2001 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn Ebrill 2003.
- 7 Derbyniodd yr ysgol arolygiad byr y tro hwn.

Blaenoriaethau a thargedau'r ysgol

- 8 Prif flaenoriaethau'r ysgol yn ôl y Cynllun Datblygu Ysgol (CDY) am y flwyddyn 2008-2009 yw:
 - parhau i sefydlu a datblygu'r Cyfnod Sylfaen;
 - parhau i ymateb i ofynion Cwricwlwm 2008 ac Asesu ar Gyfer Dysgu;
 - datblygu sgiliau cyfathrebu ar draws y cwricwlwm; a
 - parhau i ddatblygu gweithgareddau'r cynlluniau Ysgol Iach ac Ysgol Werdd.

Crynodeb

- 9 Mae hon yn ysgol dda sy'n cael ei harwain a'i rheoli'n effeithiol er mwyn darparu addysg o ansawdd uchel i'w disgyblion. Mae'n gymuned hapus a chartrefol ac mae'r disgyblion yn amlwg yn mwynhau'r profiadau cyfoethog a gwerthfawr a ddarperir ar eu cyfer.
- 10 Mae ansawdd y gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth a gynigir i'r disgyblion yn rhagorol. Mae pob aelod staff yn cydweithio'n dda fel tîm er mwyn sicrhau cyfle cyfartal i bob unigolyn dan eu gofal.

Tabl o'r graddau a ddyfarnwyd

Cwestiwn Allweddol	Gradd arolygu
1 Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	2
2 Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	2
3 Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	1
4 Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?	1
5 Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?	2
6 Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	2
7 Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	2

- 11 Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant dan bump oed yn briodol i'w hanghenion, ac mae'r plant yn gwneud cynnydd da tuag at ganlyniadau'r Cyfnod Sylfaen.
- 12 Mae'r disgyblion sydd ag AAA yn gwneud cynnydd da yn addysgol ac mae'r rhan fwyaf yn cyflawni'r targedau a osodir ar eu cyfer.
- 13 Gwna'r plant dan bump oed gynnydd da ym medrau allweddol siarad a gwrando, darllen ac ysgrifennu cynnar. Mae eu medrau mathemategol a'r defnydd a wnânt o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn dda.
- 14 Yn y ddau gyfnod allweddol, mae medrau gwrando'r disgyblion yn rhagorol, ac mae eu medrau siarad, darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg ar draws y cwricwlwm yn dda. Mae disgyblion CA2 yn gwneud defnydd da o fedrau llythrennedd yn Saesneg mewn

gwahanol bynciau. Mae'r plant dan bump oed a disgyblion trwy'r ysgol yn cyflawni safonau da mewn medrau dwyieithog, ac yn gwneud cynnydd rhagorol yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r Cwricwlwm Cymreig.

- 15 Yn y ddau gyfnod allweddol, gwna'r disgyblion ddefnydd cyson ac effeithiol o fedrau mathemategol a TGCh ar draws y cwricwlwm. Mae medrau creadigol y disgyblion yn rhagorol ar draws yr ysgol.
- 16 Er bod canlyniadau asesiadau athrawon ar ddiwedd CA1 yn 2008 yn is nag ysgolion tebyg o ran nifer y disgyblion sy'n derbyn cinio ysgol am ddim, nid yw'r gymhariaeth yn ddibynadwy oherwydd bod canran uchel o'r disgyblion yn rhai ag AAA. Ar ddiwedd CA2 yn 2008, roedd canlyniadau asesiadau athrawon yn y 50% uchaf o ysgolion tebyg mewn Cymraeg, Saesneg a mathemateg, ond ychydig yn is mewn gwyddoniaeth. Yn y ddau gyfnod allweddol, llwyddodd oddeutu 30% o'r disgyblion i gyflawni lefelau uwch na'r lefel a ddisgwylir ar gyfer eu hoed.
- 17 Mae'r disgyblion trwy'r ysgol yn gwneud cynnydd da tuag at gyrraedd eu potensial a symud ymlaen i'r cyfnod dysgu nesaf. Mae mwyafrif y disgyblion galluog yn llwyddo'n dda i ymdopi â thasgau datrys problemau heriol, ac mae'r disgyblion sydd ag AAA yn cyflawni'n rhagorol mewn sgiliau bywyd pwysig.
- 18 Mae nodweddion rhagorol i'r cynnydd a wna'r disgyblion yn eu medrau personol, cymdeithasol a moesol, a'u medrau dysgu. Mae disgyblion trwy'r ysgol yn cyfrannu a chanolbwyntio'n dda iawn yn y gwersi gan weithio'n frwdfrydig a chynhyrchiol. Er bod gallu disgyblion trwy'r ysgol i weithio'n annibynnol yn dda, mae'r diffyg lle mewn lleiafrif o'r dosbarthiadau yn amharu ar eu gallu i symud o gwmpas yn rhwydd wrth gynllunio a threfnu tasgau eu hunain.
- 19 Mae safonau ymddygiad y disgyblion, eu hymwybyddiaeth o faterion cyfle cyfartal a'u parch at amrywiaeth mewn cymdeithas yn rhagorol.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

- 20 Barnwyd ansawdd yr addysgu fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
28%	65%	7%	0%	0%

- 21 Mae'r canrannau hyn yn rhagori ar y canrannau cyfartalog ar gyfer Cymru gyfan, fel y'u cyhoeddir yn Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi (PAEM) 2007-2008, sef bod ansawdd yr addysgu'n radd 2 neu'n uwch mewn 83% o wersi a gradd 1 mewn 16% o wersi. Gwelwyd addysgu rhagorol mewn oddeutu hanner y dosbarthiadau.
- 22 Mae nodweddion rhagorol yr addysgu'n cynnwys cyflwyniadau bywiog sy'n tanio dychymyg y disgyblion, gweithgareddau ymarferol a thasgau heriol sy'n annog disgyblion i weithio pethau allan eu hunain, holi treiddgar, disgwyliadau uchel a defnydd medrus o gymorthyddion.

- 23 Mae nodweddion da'r addysgu yn cynnwys nodau clir i'r gwersi a meini prawf llwyddiant yn cael eu rhannu gyda'r disgyblion, tasgau sy'n cwrdd ag anghenion pob disgybl, datblygu medrau dwyieithog y disgyblion yn effeithiol, a pherthynas dda rhwng oedolion a disgyblion yn creu awyrgylch waith pwrpasol.
- 24 Yn y gwersi prin lle'r oedd diffygion yn yr addysgu, nid oedd disgwyliadau'r athrawon yn ddigon uchel o ran cyflawniadau disgyblion, ac nid oedd y tasgau'n ddigon heriol i ymestyn y disgyblion mwyaf galluog.
- 25 Mae ansawdd yr asesu a chofnodi cynnydd plant yn y Cyfnod Sylfaen a disgyblion CA1 a CA2 yn dda ac yn cwrdd yn llawn â'r gofynion statudol. Mae'r adroddiadau blynyddol i rieni yn rhoi darlun manwl a chywir o gyflawniadau disgyblion.
- 26 Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n cwrdd â'r holl ofynion statudol ac yn sicrhau mynediad llawn a chyfle cyfartal i bob disgybl. Mae ansawdd ac amrywiaeth y profiadau dysgu a ddarperir i'r disgyblion yn rhagorol. Caiff profiadau'r disgyblion eu cyfoethogi'n effeithiol iawn trwy amrywiol weithgareddau gan gynnwys darpariaeth y tu allan i oriau ysgol.
- 27 Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn rhagorol. Mae'r gwerthoedd sy'n cael eu meithrin gan yr ysgol a'r cyfleoedd a gaiff y disgyblion i helpu eraill, i gyd fyw, ac i feithrin parch at amrywiaeth mewn cymdeithas trwy'r cyd-weithio agos gyda Chanolfan Antur Waunfawr, yn rhagoriaeth amlwg.
- 28 Mae ansawdd y gofal, y gefnogaeth a'r cyfarwyddyd a gynigir i'r disgyblion yn rhagorol. Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol iawn o wasanaethau cymorth er mwyn sicrhau cynhaliaeth a chefnogaeth berthnasol yn unol ag anghenion disgyblion.
- 29 Mae'r ysgol yn gweithio mewn partneriaeth agos iawn â rhieni ac yn ystyried eu barn bob amser. Mae gan y rhieni hyder amlwg yn y gofal a'r cyfarwyddyd a gaiff eu plant ac yn y ffordd y mae'r ysgol yn ymateb i'w pryderon.
- 30 Trwy ystod eang o weithgareddau amrywiol sy'n gysylltiedig â'r cynllun Ysgolion Iach, mae'r ysgol yn hyrwyddo ffitrwydd ac iechyd disgyblion yn rhagorol.
- 31 Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn rhagorol, ac yn cydymffurfio'n llawn â'r Côd Ymarfer. Trwy ddilyn gweithdrefnau asesu manwl a thrylwyr, mae'r athrawon yn dod i adnabod anawsterau'r disgyblion yn gynnar ac yn gweithredu'n syth er mwyn sicrhau cefnogaeth a chynhaliaeth benodol addas ar eu cyfer. Mae'r disgyblion yn integreiddio'n rhwydd i fywyd a gwaith yr ysgol ac yn cael profiadau gwerthfawr a pherthnasol ar gyfer datblygu sgiliau bywyd.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

- 32 Mae'r pennaeth yn cynnig arweiniad clir sy'n hybu safonau uchel o ran y ddarpariaeth a chyflawniad disgyblion. Caiff gefnogaeth dda gan yr aelod staff a benodwyd yn ddiweddar i fod â swyddogaeth arweinyddiaeth a rheolaeth. Ers yr arolygiad diwethaf, llwyddwyd i gynnal y safonau da ac i wella safonau cyflawniad disgyblion mewn Saesneg ac yn y defnydd o Saesneg ar draws y cwricwlwm.

- 33 Mae'r ysgol wedi sefydlu trefn effeithiol ar gyfer rheoli a gwella perfformiad staff, yn cynnwys gosod targedau addas ar gyfer datblygiad a chynnig cynhaliath a hyfforddiant priodol i'w helpu i gyrraedd y targedau.
- 34 Mae trefniadau hunan arfarnu'r ysgol yn drylwyr ac yn effeithiol. Mae'r pennaeth a'r cydlynwyr cwricwlaidd yn casglu tystiolaeth uniongyrchol o sawl ffynhonnell, yn dadansoddi'r wybodaeth yn ofalus ac yn gwneud defnydd effeithiol o'r canlyniadau i osod targedau ar gyfer gwella'r ddarpariaeth a chodi safonau.
- 35 Mae'r adroddiad hunan arfarnu a gynhyrchwyd gan yr ysgol cyn yr arolygiad yn glir ac yn gynhwysfawr ac yn cynnig barnau gwrthrychol a gonest ar y saith cwestiwn allweddol. Mae barn y tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hunan arfarniad ym mhob un o'r saith cwestiwn allweddol.
- 36 Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn i'r ysgol ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau'n dda gan sicrhau bod yr ysgol yn cwrdd â'r holl ofynion cyfreithiol. Trwy dderbyn adroddiadau manwl gan y pennaeth, a thrafod canlyniadau asesiadau athrawon a'r adroddiadau hunan arfarnu, mae ganddynt ddealltwriaeth dda o faterion sy'n effeithio ar berfformiad yr ysgol.
- 37 Rhoddwyd sylw gofalus i'r materion allweddol a nodwyd yn adroddiad arolygiad diwethaf yr ysgol a llwyddwyd i gyflawni pob un o'r amcanion.
- 38 Mae digon o staff addysgu yn yr ysgol ar gyfer y nifer o ddisgyblion sydd ar y gofrestr ac mae ganddynt wybodaeth a chymwysterau addas sy'n eu galluogi i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol i bob disgybl. Mae'r staff cynnal AAA a chymorthyddion y Cyfnod Sylfaen yn dangos lefel uchel o ymroddiad a gofal wrth gefnogi'r disgyblion yn eu gwaith.
- 39 Mae cyflenwad da o adnoddau yn yr ysgol ac maent yn cael eu defnyddio'n effeithiol ar gyfer pob oedran ac ar draws holl feysydd y cwricwlwm. Mae'r adnoddau newydd ar gyfer hyrwyddo dysgu yn yr awyr agored yn y Cyfnod Sylfaen yn rhagorol, ac yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth ar gyfer y plant. Mae'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yn gwneud cyfraniad gwerthfawr trwy godi symiau sylweddol o arian i wella nifer ac ansawdd yr adnoddau.
- 40 Mae mwyafrif yr ystafelloedd dysgu o faint da ac yn addas ar gyfer y nifer o ddisgyblion. Mae'r neuadd yn fach ac er ei bod yn cael ei defnyddio'n rheolaidd ar gyfer sesiynau torfol ac fel ffreutur ginio, mae'n hollol anaddas ar gyfer y nifer o ddisgyblion sydd yn yr ysgol. Nid yw ychwaith yn ddigonol o ran maint ar gyfer cynnal gwersi addysg gorfforol.
- 41 Nid oes ystafell addas ar wahân i'r staff ei defnyddio amser cinio ac i weithio yn ystod cyfnodau digyswllt.
- 42 Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn sicrhau'r canlyniadau gorau posib i'w holl ddisgyblion trwy drafod yn rheolaidd y defnydd a wneir o adnoddau, gan gynnwys yr adnoddau ariannol sydd ar gael i'r ysgol.
- 43 Mae'r ysgol yn rhoi gwerth am arian.

Argymhellion

44 Er mwyn gwella, mae angen i'r ysgol:

- A1 gynnal y safonau da ac anelu at ragoriaeth;
- A2 rhannu arfer dda o ran dulliau addysgu rhagorol er mwyn sicrhau cysondeb ar draws yr ysgol; a
- A3 chydweithio gyda'r ALI i wella'r adeilad er mwyn darparu ystafell sy'n ddigon mawr i gynnal sesiynau ysgol-gyfan a gwersi addysg gorfforol, ac ystafell athrawon.

Mae'r corff llywodraethol yn gyfrifol am ddiwygio'i gynllun datblygu cyfredol i ymgorffori camau i ymateb i'r argymhellion ymhen 45 diwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad, gan ddangos yr hyn y mae'r ysgol am ei wneud ynglŷn â'r argymhellion. Bydd y cynllun hwn, neu grynodedb ohono, yn cael ei ddosbarthu i bob rhiant yn yr ysgol.

Safonau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

- 45 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.
- 46 Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer y plant dan bump oed yn briodol i'w hanghenion, ac mae'r plant yn gwneud cynnydd da tuag at ganlyniadau'r Cyfnod Sylfaen.
- 47 Mae'r disgyblion sydd ag AAA yn gwneud cynnydd da yn addysgol ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cyflawni'r targedau a osodir ar eu cyfer.
- 48 Gwna'r plant dan bump oed gynnydd da ym medrau allweddol gwrando a siarad, darllen ac ysgrifennu cynnar. Maent yn trafod eu chwarae grŵp ac unigol yn hyderus gan fynegi barn, gwneud dewisiadau a chyfeirio at eu bwriadau. Maent yn mwynhau rhannu llyfr gydag oedolyn ac yn adnabod ac esbonio digwyddiadau mewn lluniau. Wrth chwarae yn y gwahanol ardaloedd, maent yn defnyddio ystod o offer marcio yn hyderus i wahanol bwrpasau megis paentio, tynnu llun, sgriblo a dechrau ysgrifennu.
- 49 Mae medrau mathemateg y plant dan bump oed a'u defnydd o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn dda. Maent yn didoli, cyfatebu, cymharu, trefnu a chyfrif gwrthrychau mewn ystod eang o gyd-destunau, ac yn gwneud cynnydd da wrth ddefnyddio cyfrifiadur i wneud lluniau a phatrymau.
- 50 Mae medrau dwyieithog y plant dan bump oed yn datblygu'n dda. Mewn byr amser, daw'r plant sy'n ddysgwyr y Gymraeg i ddilyn cyfarwyddiadau'n gywir, i ofyn cwestiynau ac i sgwrsio'n rhwydd yn y Gymraeg.
- 51 Yn y ddau gyfnod allweddol, mae medrau gwrando'r disgyblion yn rhagorol. Maent yn canolbwyntio'n ddyfal wrth wrando ar gyflwyniadau'r athrawon ac ar gyfraniadau'i gilydd. Mae eu medrau siarad, darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg ar draws y cwricwlwm yn dda. Maent yn trafod yn hyderus mewn nifer o gyd-destunau, yn darllen yn rhugl er mwyn dod o hyd i wybodaeth ac yn ysgrifennu mewn nifer o wahanol ffurfiau wrth gofnodi'r gwaith.
- 52 Er nad yw Saesneg yn cael ei addysgu'n ffurfiol yn CA1, mae'r disgyblion yn ymwneud â gweithgareddau syml megis gwrando ar stori, sgwrsio a darllen yn Saesneg, gan wneud cynnydd da. Erbyn CA2, maent yn trafod eu gwaith yn rhwydd gan wneud defnydd da o eiriau ac ymadroddion perthnasol i'r cyd-destun. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn llwyddo'n dda wrth ganfod gwybodaeth am waith ar draws y cwricwlwm o lyfrau ac o'r rhyngwyd. Maent yn cofnodi'u gwaith Saesneg yn effeithiol mewn amryw ddulliau.
- 53 Mae'r disgyblion trwy'r ysgol yn cyflawni safonau da mewn medrau dwyieithog. Daw dysgwyr y Gymraeg i siarad yr iaith yn fuan yn CA1. Erbyn CA2, maent yn

defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn effeithiol fel cyfrwng dysgu ac yn symud yn rhwydd o'r un iaith i'r llall wrth gywain gwybodaeth a gwneud ymchwiliadau.

- 54 Gwna'r disgyblion trwy'r ysgol gynnydd rhagorol yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r Cwricwlwm Cymreig. Mae ganddynt wybodaeth fanwl am eu milltir sgwâr a diwylliant lleol, ac am ystod eang o lenorion, cerddorion ac artistiaid Cymreig.
- 55 Mae'r disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn gwneud defnydd cyson ac effeithiol o fedrau mathemategol ar draws y cwricwlwm ac yn cyflawni safonau da. Yn CA1, mae'r disgyblion yn cyfrif, dosbarthu a threfnu gwrthrychau ac yn mesur a chymharu hyd ac amser mewn nifer o gyd-destunau. Yn CA2, gwna'r disgyblion ddefnydd effeithiol o'u medrau wrth wneud a chymharu mesuriadau manwl a chasglu a chofnodi data mewn gwersi megis gwyddoniaeth, daearyddiaeth a hanes, ac wrth ddefnyddio amserlen trên Rheilffordd Eryri i ganfod gwybodaeth am hyd a chost teithiau.
- 56 Yn y ddau gyfnod allweddol, mae safonau a chynnydd disgyblion mewn TGCh ar draws y cwricwlwm yn dda. Maent yn trin offer TGCh yn hyderus ac yn gwneud defnydd effeithiol o ystod eang o raglenni i gefnogi a chyfoethogi gwaith ar draws y cwricwlwm.
- 57 Ar draws yr ysgol, mae medrau creadigol y disgyblion yn rhagorol. Mae tystiolaeth amlwg yng ngwaith y disgyblion ac mewn arddangosfeydd o amgylch yr ysgol, o'r defnydd effeithiol a wnânt o'u dychymyg a'u creadigedd mewn gwersi celf a dylunio, technoleg a TGCh, ac wrth greu storïau, deialogau a cherddi yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r disgyblion yn cyflwyno'u gwaith yn drefnus a chwaethus yn holl feysydd y cwricwlwm.
- 58 Ar ddiwedd CA1 yn 2008, roedd canlyniadau asesiadau athrawon yn sylweddol is nag ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n cael cinio am ddim. Fodd bynnag, nid yw'r gymhariaeth yn ddibynadwy oherwydd bod canran uchel o'r disgyblion yn y garfan yn rhai ag AAA. Mae canran uchel o ddisgyblion ag AAA mewn dwy flynedd y olynol, yn golygu bod perfformiad yr ysgol dros dair blynedd yn amrywio o fod yn y 25% uchaf o ysgolion i fod yn y 25% isaf o ysgolion.
- 59 Wrth gymharu ag ysgolion sydd â chanran tebyg o ddisgyblion yn gymwys i gael cinio ysgol am ddim yn CA2, roedd canlyniadau asesiadau athrawon yn 2008 ymhlith y 50% uchaf ond nid y 25% uchaf o ysgolion mewn Cymraeg iaith gyntaf, Saesneg a mathemateg. Roedd canlyniadau'r ysgol yn y 50% isaf o ysgolion mewn gwyddoniaeth, ond dau ddisgybl yn unig oedd yn cyfrif am y gwahaniaeth. Mae perfformiad yr ysgol ar ddiwedd CA2 dros dair blynedd yn amrywio ond ar y cyfan, mae'r canlyniadau yn y 50% uchaf o ysgolion tebyg. Wrth gymharu perfformiad yr un disgyblion ar ddiwedd CA1 ac wedyn ar ddiwedd CA2, mae'r data yn dangos eu bod yn gwneud cynnydd da o'u man cychwyn.
- 60 Yn 2008 yn y ddau gyfnod allweddol, llwyddodd y disgyblion mwyaf galluog (o leiaf 30% o'r garfan) i gyflawni lefelau uwch na'r lefel a ddisgwyilir ar gyfer eu hoed.
- 61 Er bod perfformiad bechgyn yn isel mewn perthynas â pherfformiad genethod yn 2008, nid oes unrhyw batrwm arwyddocaol i'w weld dros y tair blynedd ddiwethaf.

- 62 Mae'r tasgau a gwblhawyd gan y disgyblion cyn yr arolygiad yn dangos bod y plant dan bump oed a disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn gwneud cynnydd da tuag at gyrraedd eu potensial a symud ymlaen i'r cyfnod dysgu nesaf. Mae mwyafrif y disgyblion galluog yn llwyddo'n dda i ymdopi â thasgau datrys problemau heriol. Mae'r disgyblion sydd ag AAA yn cyflawni'n rhagorol mewn sgiliau bywyd pwysig megis cydweithio gyda chyfoedion ac oedolion, dewis eitemau mewn siop neu gaffi, trin arian a choginio. Mae'r disgyblion trwy'r ysgol yn sicrhau ac yn atgyfnerthu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau newydd yn gyson.
- 63 Mae'r disgyblion ieuengaf yn trafod eu gwaith yn hyderus gan arddangos dealltwriaeth dda ohono. Caiff disgyblion CA2 ran weithredol yn y broses o osod targedau ar gyfer gwella'u gwaith ac mae'r mwyafrif yn deall yn dda beth sydd angen iddynt ei wneud i'w cyrraedd.
- 64 Mae nodweddion rhagorol i'r cynnydd a wna'r disgyblion yn eu medrau personol, cymdeithasol a moesol, a'u medrau dysgu. Trwy'r gwersi addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh), sesiynau 'amser cylch' ac addoli ar y cyd, ac ethos a bywyd dydd-i-ddydd yr ysgol, maent yn dysgu gwerthoedd personol pwysig ac yn datblygu dealltwriaeth gadarn o faterion moesol a chymdeithasol. Hyrwyddir datblygiad ysbrydol y disgyblion yn effeithiol yn y sesiynau addoli ar y cyd ac mewn ystod eang o weithgareddau traws cwricwlaidd.
- 65 Mae disgyblion trwy'r ysgol yn cyfrannu a chanolbwyntio'n dda iawn yn y gwersi gan weithio'n frwdfrydig a chynhyrchiol. Cydweithiant yn gall ac aeddfed mewn parau a grwpiau bach gan gymryd pleser amlwg yn y profiadau a defnyddio'u hamser yn effeithiol. Mae eu gallu i wneud dewisiadau a phenderfyniadau wrth ddatrys problemau yn rhagorol. Er bod gallu disgyblion trwy'r ysgol i weithio'n annibynnol yn dda, mae'r diffyg lle mewn lleiafrif o'r dosbarthiadau yn amharu ar allu disgyblion i symud o gwmpas yn rhwydd wrth gynllunio a threfnu tasgau eu hunain.
- 66 Mae safonau ymddygiad y disgyblion yn rhagorol ac yn cael effaith gadarnhaol ar y dysgu, a bywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r plant dan bump oed a disgyblion y ddau gyfnod allweddol yn hollol ymwybodol o ddisgwiliadau a rheolau'r ysgol ac yn glynu atynt. Mae safon eu cwrteisi at ei gilydd, at staff, ac at ymwelwyr yn uchel. Dangosant hunanddisgyblaeth y tu hwnt i'w hoedran ac mae eu parch, goddefgarwch a gofal am eraill yn rhagorol.
- 67 Mae cyfartaledd presenoldeb yr ysgol am y tri thymor cyn yr arolygiad yn 94%, sydd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, ond yn agos iawn i'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n cael cinio am ddim. Mae prydlondeb yn dda.
- 68 Trwy'r Cyngor Ysgol a'r sesiynau ¹'amser cylch' mae'r disgyblion yn teimlo'n rhydd i fynegi barn yn agored ac yn onest ac yn dysgu medrau sy'n eu helpu i ddelio â phroblemau mewn ffordd resymegol. Maent yn ystyried eu hunain yn rhan o gymuned ac yn cynnal ei gilydd yn barhaus wrth gymryd rhan weithredol ym mywyd a gwaith yr ysgol.

¹ Amser cylch – sesiynau lle mae disgyblion yn eistedd mewn cylch, ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau, gemau ac ymarfer siarad a gwranddo. Caiff ei ystyried yn ddull ysgol-gyfan ar gyfer cynyddu hunan-ddelwedd disgyblion, a hyrwyddo gwell perthnasau ac ymddygiad cadarnhaol.

- 69 Mae ymwybyddiaeth y disgyblion o faterion cyfle cyfartal a'u parch at amrywiaeth mewn cymdeithas yn rhagorol. Trwy eu hastudiaethau mewn addysg grefyddol a daearyddiaeth, a'u cysylltiadau â gwledydd eraill yn y byd, mae'r disgyblion yn dod i ddeall a gwybod am nifer o wahanol greddau, arferion a diwylliannau. Maent yn cymdeithasu a chydweithio'n gyson gyda gweithwyr Antur Waunfawr, sy'n ganolfan i bobl ag anabledau, ac yn eu trin gyda chyfeillgarwch, parch a goddefgarwch eithriadol.
- 70 Mae ymwybyddiaeth y disgyblion o fyd gwaith yn dda. Sefydlwyd cysylltiadau buddiol gyda nifer o fusnesau lleol a chyda Gyfa Cymru. Mae medrau menter y disgyblion yn datblygu'n dda wrth iddynt redeg siop ffrwythau'r ysgol a chynhyrchu a gwerthu nwyddau yn y Ffair Nadolig a'r Ffair Haf.
- 71 Mae'r disgyblion yn cymryd rhan weithredol mewn ystod eang o weithgareddau yn y gymuned. Mae'r cysylltiadau gydag Antur Waunfawr, yr eglwys, Sefydliad y Merched, a'r gweithgareddau megis cyngherddau, eisteddfod y pentref a gwasanaethau crefyddol yn cyfrannu'n rhagorol at ddatblygu dealltwriaeth y disgyblion o'u cymuned.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

- 72 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.
- 73 Barnwyd ansawdd yr addysgu fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
28%	65%	7%	0%	0%

- 74 Mae'r canrannau hyn yn rhagori ar y canrannau cyfartalog ar gyfer Cymru gyfan, fel y'u cyhoeddir yn Adroddiad Blynyddol PAEM 2007-2008, sef bod ansawdd yr addysgu'n radd 2 neu'n uwch mewn 83% o wersi a gradd 1 mewn 16% o wersi.
- 75 Mae perthynas dda rhwng yr athrawon, y cymorthyddion a'r disgyblion sy'n hyrwyddo dysgu effeithiol. Caiff pob disgybl ei drin yn gyfartal, beth bynnag fo'i rhyw, hil a gallu.
- 76 Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol dda ac maent yn gyfarwydd â datblygiadau diweddar, megis gofynion Cwricwlwm diwygiedig 2008 a'r Cyfnod Sylfaen. Ar draws yr ysgol, mae ansawdd y cynllunio'n rhagorol. Mae gan yr athrawon amcanion eglur o'r hyn y disgwylir i ddisgyblion ei ddysgu, ac yn y rhan fwyaf o'r gwersi maent yn llwyddo i ddiwallu anghenion disgyblion unigol. Gwelwyd gwersi rhagorol mewn oddeutu hanner y dosbarthiadau.

77 Mae nodweddion rhagorol yr addysgu'n cynnwys:

- cyflwyniadau bywiog a chyffrous sy'n ennyn diddordeb a thanio dychymyg y disgyblion;
- datblygu medrau meddwl disgyblion trwy osod tasgau heriol sy'n eu hannog i weithio pethau allan eu hunain, ac i wneud dewisiadau a phenderfyniadau er mwyn datrys problemau;
- defnydd medrus o gymorthyddion sy'n gweithio gyda disgyblion yn y dosbarth i helpu i godi safonau;
- gweithgareddau ymarferol sy'n hyrwyddo dysgu annibynnol ac yn dyfnhau dealltwriaeth disgyblion;
- disgwyliadau uchel a thasgau sy'n ymestyn y disgyblion mwyaf galluog i'r eithaf; a
- holi treiddgar sy'n annog y disgyblion i gwestiynu, i fod yn feirniadol ac i ddod i gasgliadau rhesymegol.

78 Mae nodweddion da'r addysgu yn cynnwys:

- gwersi wedi eu strwythuro'n ofalus gyda nodau clir a chyfarwyddiadau eglur;
- tasgau wedi eu gwahaniaethu'n addas er mwyn cwrdd ag anghenion disgyblion o wahanol alluoedd;
- rhannu meini prawf llwyddiant hefo'r disgyblion ar ddechrau gwerau a chyfeirio atynt yn gyson er mwyn symud y dysgu yn ei flaen;
- defnydd effeithiol o adnoddau gan gynnwys y bwrdd gwyn rhyngweithiol;
- cyflymder addas i bob rhan o'r wers a defnydd effeithiol o amrywiol ddulliau addysgu gan gynnwys addysgu dosbarth cyfan, gwaith pâr, gweithgareddau grŵp a gwaith unigol;
- cynnal y disgyblion yn dda tra ar eu tasgau gan gwestiynu a'u hannog er mwyn sicrhau eu bod yn ymateb i'r gofynion;
- annog disgyblion i gyfrannu at gynllun a rhediad y wers, a defnydd effeithiol o ganmoliaeth a chlod wrth iddynt lwyddo; ac
- athrawon a chymorthyddion yn manteisio ar bob cyfle i ddatblygu medrau dwyieithog y disgyblion mewn ffordd sensitif.

79 Yn y gwerau prin lle'r oedd diffygion yn yr addysgu, nid oedd disgwyliadau'r athrawon yn ddigon uchel o ran cyflawniadau disgyblion, ac nid oedd y tasgau'n ddigon heriol i ymestyn y disgyblion mwyaf galluog.

80 Mae ansawdd yr asesu a chofnodi cynnydd plant yn y Cyfnod Sylfaen a disgyblion CA1 a CA2 yn dda. Mae'r athrawon yn gweithredu trefn sy'n deg, yn gyson ac yn gywir o asesu cyflawniadau disgyblion yn holl bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol. Maent yn cwrdd yn llawn â'r gofynion statudol.

- 81 Mae'r drefn o arsylwi a chofnodi cynnydd a chyflawniad plant yn y Cyfnod Sylfaen yn dda. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn asesu cynnydd a datblygiad y plant yn barhaus ac yn cofnodi gwybodaeth arwyddocaol yn ffeil bersonol y plentyn. Maent yn dadansoddi'r asesiadau'n fanwl ac yn gwneud defnydd effeithiol o'r wybodaeth i gynllunio gwaith pellach ac i wella'r dysgu a'r addysgu.
- 82 Yn CA1 a CA2, mae'r athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o asesiadau parhaus ynghyd â chanlyniadau profion safonedig mewn Cymraeg, Saesneg a mathemateg, i osod targedau penodol ar lefel disgybl unigol ac ysgol gyfan. Mae'r disgyblion yn chwarae rhan gynyddol, yn unol â'u hoedran, yn y broses o bennau targedau iddynt eu hunain ac yn dod yn fwyfwy ymwybodol o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella'u gwaith.
- 83 Mae'r arfer gan yr athrawon o drafod a gosod lefelau ar enghreifftiau o waith disgyblion yn rheolaidd mewn cyfarfodydd staff yn sicrhau cysondeb yn asesiadau'r ysgol. Mae'r trafodaethau mewn cyfarfodydd rhwng ysgolion cynradd y dalgylch a'r ysgol uwchradd i gyd-safoni a chysoni disgwyliaid yn cryfhau asesiadau athrawon yn CA2 a CA3.
- 84 Mae'r athrawon yn marcio gwaith y disgyblion yn rheolaidd gan gynnig sylwadau adeiladol ac arweiniad defnyddiol ar sut i'w wella. Mae'r drefn sefydlwyd yn ddiweddar o feithrin gallu disgyblion i asesu eu perfformiad eu hunain a pherfformiad eu cyfoedion yn datblygu'n dda.
- 85 Caiff rhieni gyfle yn dymhorol i drafod cynnydd eu plant. Mae ansawdd yr adroddiadau blynyddol i rieni yn dda ac yn rhoi darlun manwl a chywir o gyflawniadau disgyblion.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

- 86 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.
- 87 Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n cwrdd â'r holl ofynion statudol ac yn sicrhau mynediad llawn a chyfle cyfartal i bob disgybl. Mae ansawdd ac amrywiaeth y profiadau dysgu a ddarperir i'r disgyblion yn rhagorol.
- 88 Mae ansawdd y cynllunio a'r ddarpariaeth gyffredinol ar gyfer plant y Cyfnod Sylfaen yn rhagorol. Llwyddwyd i greu awyrgylch hapus a symbylol y tu fewn ac allan yn yr awyr agored, sy'n sicrhau bod y plant yn derbyn amrywiaeth o brofiadau ymarferol gwerthfawr mewn ardaloedd a gynlluniwyd yn bwrpasol ar gyfer tanio dychymyg, meithrin iaith a datblygu creadigedd.
- 89 Mae'r cynlluniau diwygiedig ar gyfer CA2 yn cynnig arweiniad clir i'r athrawon. Mae'r dull thematig trawsgwricwlaidd o weithio yn sicrhau hyblygrwydd, amrywiaeth a dilyniant mewn profiadau gan osod cyfeiriad clir i'r dysgu. Cynllunnir yn fwriadus i

ddatblygu medrau allweddol llythrennedd, mathemateg a TGCh, a medrau dysgu pwysig y disgyblion. Mae effeithiolrwydd y ddarpariaeth yn cael ei adlewyrchu'n glir yn llwyddiant yr ysgol wrth dderbyn achrediad Marc Safon yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol am y trydydd tro.

- 90 Mae ansawdd y ddarpariaeth a'r cynllunio ar gyfer hyrwyddo datblygiad dwyieithog y disgyblion trwy sicrhau cydbwysedd ieithyddol priodol yn dda. Mae'r ysgol yn rhoi cryn bwyslais ar godi ymwybyddiaeth disgyblion o'r Cwricwlwm Cymreig trwy weithgareddau yn y gymuned a thrwy drafod gwaith llenorion, beirdd, cerddorion ac artistiaid lleol.
- 91 Caiff profiadau'r disgyblion eu cyfoethogi'n rhagorol trwy amrywiol weithgareddau gan gynnwys darpariaeth y tu allan i oriau ysgol. Mae'r gweithgareddau pêl droed, pêl rwyd, canu a dawnsio yn helpu i wella safonau cyflawniad disgyblion ac yn hybu eu datblygiad personol a chymdeithasol. Daw nifer o wirfoddolwyr o'r gymuned ac ymwelwyr eraill i'r ysgol i weithio hefo'r disgyblion ac i rannu profiadau ac arbenigeddau. Mae'r rhiant sy'n helpu'n wythnosol gyda gwaith yng ngardd yr ysgol, athrawon teithiol, a'r awduron ac artistiaid preswyl sy'n ymweld yn achlysurol, yn cynnig profiadau gwerthfawr sydd o fudd i'r disgyblion a'r athrawon, ac yn hyrwyddo safonau uchel mewn sawl maes.
- 92 Mae'r ysgol yn gwneud defnydd helaeth o adnoddau lleol gan gynnwys amgueddfa Kate Roberts yng Nghae Gors, Amgueddfa Lechi Llanberis, Canolfan Antur Waunfawr a'r Ganolfan Ailgylchu yng Nghaernarfon. Mae'r cyfnodau preswyl a drefnir yn rheolaidd ar gyfer disgyblion CA2, yn cynnwys ymweliadau â Chanolfan yr Urdd yng Nglan-llyn, Canolfan Awyr Agored yn Rhyd-ddu, Canolfan Iaith Nant Gwrtheyrn a Dinas Caerdydd, yn cyfoethogi'r cwricwlwm yn rhagorol.
- 93 Mae'r cyfnodau addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol ac yn cynnig cyfleoedd da i ddisgyblion fyfyrion ar elfennau ysbrydol a phersonol. Daw gweinidog y capel lleol i'r ysgol yn rheolaidd i annerch y disgyblion, ac mae'r ysgol yn cydweithio gyda'r ficer lleol yn achlysurol, megis yn ystod Gwasanaeth y Cadoediad.
- 94 Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn rhagorol. Trwy raglen addysg bersonol a chymdeithasol sydd wedi ei mapio'n fanwl ar draws yr ysgol, sesiynau rheolaidd o 'amser cylch' a'r Cyngor Ysgol, caiff disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i drafod, cwestiynu a dod i benderfyniad ar faterion moesol a chymdeithasol, ac i ddylanwadu'n effeithiol ar rai agweddau o fywyd dydd-i-ddydd yr ysgol. Mae'r gwerthoedd sy'n cael eu meithrin gan yr ysgol a'r cyfleoedd a gaiff y disgyblion i helpu eraill, i gyd fyw, ac i feithrin parch at amrywiaeth mewn cymdeithas yn rhagoriaeth amlwg. Caiff hyn ei adlewyrchu'n glir yn ethos yr ysgol ac yn safonau ymddygiad rhagorol y disgyblion.
- 95 Hyrwyddir datblygiad diwylliannol a chymdeithasol disgyblion yn effeithiol trwy gynllunio a gweithredu cyfleoedd cyson i gyfoethogi eu hymwybyddiaeth o'r Cwricwlwm Cymreig, a thrwy ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ystod eang o ddiwylliannau eraill. Mae'r ysgol yn chwarae rhan amlwg ym mywyd a gwaith y gymuned.

- 96 Mae'r Cyngor Ysgol yn gweithredu'n effeithiol ac yn cyfrannu'n dda at ddealltwriaeth y disgyblion o ddemocratiaeth. Mae'n cyfarfod yn rheolaidd ac yn trafod a dod i benderfyniadau synhwyrol ar nifer o faterion sy'n dylanwadu ar fywyd disgyblion yn yr ysgol. Mae'r cyngor yn cymryd cyfrifoldeb am weithgareddau codi arian ar gyfer prynu adnoddau ychwanegol i'r ysgol, yn ogystal â chasglu tuag at achosion dyngarol.
- 97 Mae gan yr ysgol bartneriaeth ragorol gyda'r rhieni. Mae'r cytundeb rhwng cartref ac ysgol yn effeithiol, ac mae prosiectws yr ysgol yn cwrdd â'r gofynion statudol. Anfonir gwybodaeth i rieni yn gyson am weithgareddau'r ysgol ac am natur y gwaith thema ar gyfer pob tymor. Caiff y rhieni gyfle i fynegi barn am y ddarpariaeth ac i ddylanwadu ar benderfyniadau trwy ymateb i holiaduron yn ymwneud â materion megis amlder nosweithiau rhieni, trefniant gwaith cartref, llyfrau cofnodi darllen a'r drefn ar gyfer cynnal a gwella presenoldeb. Mae'r cyfraniad a wna rhieni drwy helpu gyda gwahanol weithgareddau yn cyfoethogi'r cwricwlwm ac yn codi safonau cyflawniad disgyblion. Mae'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yn weithgar a brwdfrydig iawn. Maent yn cynnal amrywiol weithgareddau i godi symiau sylweddol o arian tuag at brynu adnoddau ychwanegol i'r ysgol.
- 98 Cyfoethogir yn rhagorol ddarpariaeth gwricwlaidd yr ysgol trwy ei chysylltiadau niferus gyda'r gymuned.
- 99 Sefydlwyd cysylltiadau da iawn gydag ysgolion eraill. Mae'r cyswllt dyddiol rhwng staff yr ysgol a staff y cylch meithrin yn hyrwyddo rhannu gwybodaeth berthnasol am blant dan bump oed yn effeithiol. Mae'r trefniadau ar gyfer trosglwyddo disgyblion Blwyddyn 6 i'r ysgol uwchradd, yn cynnwys ymweliadau, rhannu gweithgareddau cwricwlaidd a chyfleoedd i athrawon gyfnewid ysgolion i arsylwi gwersi, yn dda iawn. Mae gan yr ysgol bartneriaethau effeithiol gyda sefydliadau addysg bellach.
- 100 Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer codi ymwybyddiaeth disgyblion o ddinasyddiaeth fyd eang yn dda. Trwy weithgareddau cwricwlaidd mewn pynciau megis daearyddiaeth ac addysg grefyddol, daw'r disgyblion i wybod ac i ddeall am bobl ac amodau byw ar draws y byd. Mae'r disgyblion yn cyfrannu tuag at nifer dda o elusennau yn flynyddol.
- 101 Trwy ystod eang o weithgareddau cwricwlaidd perthnasol, ymweliadau â busnesau a manau perthnasol eraill, a phrosiectau penodol, hyrwyddir ymwybyddiaeth a gwybodaeth y disgyblion o fyd gwaith a mentergarwch yn dda.
- 102 Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad cynaliadwy yn effeithiol trwy weithgareddau sy'n gysylltiedig â chynlluniau Ysgolion Gwyrdd Gwynedd a Môn, a Gerddi Gwyllt Eryri. Mae ystod ac ansawdd y gwaith a gyflawnwyd yn rhagorol.
- 103 Mae'r ysgol yn gosod sylfaeni cadarn ar gyfer dysgu gydol oes trwy ddarparu amrediad o brofiadau dysgu sy'n annog disgyblion i fod yn fentrus a hyblyg ac i gymryd peth cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain trwy fod yn ddysgwyr annibynnol.

Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

- 104 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.
- 105 Mae ansawdd y gofal, y gefnogaeth a'r cyfarwyddyd a gynigir i'r disgyblion yn rhagorol. Mae'r ysgol wedi mabwysiadu ac yn gweithredu'n llawn bolisiau perthnasol a chyfredol i sicrhau bod trefniadau gofal yn cael eu rheoli'n effeithiol. Mae'n gwneud defnydd effeithiol iawn o wasanaethau cymorth er mwyn sicrhau cynhaliath a chefnogaeth berthnasol yn unol ag anghenion disgyblion. Yn y cyfarfod cyn-arolygiad gyda'r rhieni, ac yn eu hymatebion i'r holiadur, dywed bron bob un o'r rhieni bod eu plant yn hapus yn yr ysgol.
- 106 Mae gan yr athrawon a'r staff cynorthwyol adnabyddiaeth ragorol o anghenion pob disgybl ac maent yn ofalgar iawn ohonynt. Maent yn addasu'r ddarpariaeth yn effeithiol er mwyn sicrhau mynediad llawn i bob unigolyn i holl weithgareddau'r ysgol. Mae'r disgyblion yn troi at yr oedolion yn hollol naturiol am gymorth a chefnogaeth.
- 107 Mae'r ysgol yn gweithio mewn partneriaeth agos iawn â rhieni ac yn ystyried eu barn bob amser. Anfonir cylchlythyrau yn rheolaidd i rannu gwybodaeth am ddigwyddiadau'r ysgol, a darperir holiaduron sy'n rhoi cyfle i'r rhieni fynegi barn am agweddau gwahanol o fywyd yr ysgol. Yn dilyn ymgynghoriad â rhieni, newidiwyd neu addaswyd trefn yr ysgol mewn rhai achosion. Mae gan y rhieni hyder amlwg yn y gofal a'r cyfarwyddyd a gaiff eu plant ac yn y ffordd y mae'r ysgol yn ymateb i'w pryderon.
- 108 Mae nodweddion rhagorol i'r trefniadau er mwyn sicrhau bod y plant dan bump oed yn ymgartrefu'n gyflym yn y dosbarth Cyfnod Sylfaen rhan amser. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleoedd iddynt dreulio cyfnod yn yr ysgol yn ystod y tymor blaenorol a chyfle i'r rhieni fynychu cyfarfod arbennig. Rhennir gwybodaeth berthnasol gyda'r rhieni ynghylch disgwyliadau, trefn dydd-i-ddydd yr ysgol ac egwyddorion y Cyfnod Sylfaen. Caiff y plant gynhaliath a chefnogaeth gynhwysfawr gan holl staff yr ysgol a chan ddisgyblion hŷn. Mae'r gynhaliath a'r gefnogaeth yr un mor drylwyr ar gyfer disgyblion sy'n trosglwyddo o ysgolion eraill.
- 109 Mae rhaglen ABCh yr ysgol yn gynhwysfawr ac wedi ei strwythuro'n ofalus. Trwy wersi penodol a pherthnasol, gweithdrefnau megis 'Ffrindiau Ffeind' sy'n cynnig cefnogaeth i ddisgyblion yn ystod amser egwyl, a sesiynau rheolaidd o 'amser cylch', cynigir cefnogaeth a chyfarwyddyd o ansawdd rhagorol i'r disgyblion.
- 110 Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer monitro presenoldeb a phrydlondeb, ymddygiad a pherfformiad disgyblion yn effeithiol. Mae'r athrawon yn defnyddio trefn ddisgyblaeth gadarnhaol sy'n rhoi pwyslais ar feithrin hunan ddelwedd a balchder disgyblion, a pharch tuag at eraill. Gwneir hyn trwy ganmol, tynnu sylw'n gyson at lwyddiannau a gwobrwyo disgyblion.
- 111 Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais rhagorol ar hybu ffitrwydd ac iechyd disgyblion. Yn ogystal â gwersi addysg gorfforol reolaidd a chlybiau chwaraeon, mae pob disgybl yn

aelod o'r clwb 'Dal i Fynd' sy'n annog disgyblion i gerdded neu redeg pellter penodol yn gyson. Mae disgyblion hynaf yr ysgol yn cynnal sesiynau blasu bwyd a chyflwyno gwybodaeth i ddisgyblion a rhieni ar sut i greu bocs bwyd maethlon. Mae amrywiol weithgareddau'r cynllun Ysgolion Iach yn codi ymwybyddiaeth yr holl ddisgyblion o egwyddorion byw'n iach.

- 112 Y pennaeth yw'r person dynodedig ar gyfer amddiffyn plant, ac mae cyfrifoldeb gan aelod o'r Corff Llywodraethu yn ogystal. Mae gan y staff cyfan ymwybyddiaeth a dealltwriaeth dda o'r gweithdrefnau a'r modd i ymateb pe codai achos.
- 113 Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer disgyblion sydd ag ADY yn rhagorol, ac yn cydymffurfio'n llawn â'r Côd Ymarfer. Mae gan yr aelod o'r Corff Llywodraethu sydd â chyfrifoldeb am AAA ymwybyddiaeth dda o'i swyddogaeth a sefyllfa gyfredol yr ysgol.
- 114 Trwy ddilyn gweithdrefnau asesu manwl a thrylwyr, mae'r athrawon yn dod i adnabod anawsterau'r disgyblion yn gynnar ac yn gweithredu'n syth er mwyn sicrhau cefnogaeth a chynhaliaeth benodol addas ar eu cyfer. Mae'r cynlluniau addysg unigol sy'n cael eu darparu ar gyfer y disgyblion hyn yn cynnwys targedau a strategaethau manwl ac yn cyfateb yn dda iawn i'w hanghenion. Mae'r cydgysylltydd AAA yn cadw cofnodion manwl o gynnydd y disgyblion ac yn sicrhau bod y targedau ar eu cyfer yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd. Caiff y rhieni eu cynnwys yn llawn yn yr adolygiadau a chaiff y disgyblion gyfle i fynegi barn am y ddarpariaeth ar eu cyfer.
- 115 Mae'r gynhaliaeth ragorol a gynigir gan y cydgysylltydd, yr athrawes AAA, a'r cymorthyddion yn sicrhau bod y disgyblion ag AAA yn cyrraedd eu potensial. Trwy gynllunio manwl ac ymdrechion diflino'r cymorthyddion AAA, caiff pob disgybl ag AAA fynediad llawn i'r cwricwlwm. Maent yn integreiddio'n rhwydd i fywyd a gwaith yr ysgol ac yn derbyn cyfleoedd gwerthfawr i gymryd rhan flaenllaw mewn sesiynau ysgol gyfan ac mewn gweithgareddau yn y gymuned. Darperir profiadau gwerthfawr a pherthnasol ar gyfer datblygu sgiliau bywyd y disgyblion, megis ymweld â chaffi a mynd i'r siop leol i brynu nwyddau ar gyfer sesiynau coginio.
- 116 Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol ag asiantaethau eraill ac yn defnyddio ystod eang o wasanaethau cynhaliaeth broffesiynol addas. Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos ac effeithiol gydag Ysgol Pendalar, sy'n darparu'n benodol ar gyfer disgyblion ag AAA, wrth sicrhau cynhaliaeth a chefnogaeth addas ar gyfer disgyblion sydd ag anableddau.
- 117 Mae'r gweithdrefnau effeithiol sydd wedi eu mabwysiadu gan yr ysgol, yn cynnwys strategaethau'r cynllun 'Y Blynnyddoedd Rhyfeddol' a'r pwyslais ar ymddygiad cadarnhaol, yn cynnig cynhaliaeth dda i ddisgyblion sydd â phroblemau ymddygiad, ac yn sicrhau na fydd ymddygiad gormesol yn amharu ar eu cynnydd hwy nac ar gynnydd eu cyd-ddisgyblion.
- 118 Mae'r ysgol yn gweithredu polisiâu cadarn ar gyfer hyrwyddo cyfle cyfartal a pharchu amrywiaeth ac yn llwyddo'n rhagorol i weithredu'r egwyddorion. Caiff bechgyn a genethod yr un cyfleoedd a phrofiadau yn yr ysgol. Trwy wersi addysg grefyddol a daearyddiaeth, a gweithgareddau codi arian at achosion da, mae'r ysgol yn llwyddo'n dda i godi ymwybyddiaeth disgyblion o arferion a thraddodiadau pobl mewn gwahanol rannau o'r byd.

- 119 Mae gan yr ysgol Gynllun Cydraddoldeb Anabledd a chynllun gweithredu addas sy'n tystio fod mynediad i'r anabl i bob rhan o'r ysgol. Mae'r ysgol yn gwneud pob ymdrech i sicrhau nad yw disgyblion ag anableddau yn cael eu trin yn llai ffafriol nag unrhyw un arall.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

- 120 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn yr adroddiad hunan arfarnu.
- 121 Mae'r pennaeth yn cynnig arweiniad clir sy'n hybu safonau uchel o ran y ddarpariaeth a chyflawniad disgyblion. Mae ganddi ddisgwyladau uchel ac mae'n arwain trwy esiampl gan greu ymdeimlad o gyfeiriad i waith yr ysgol. Ers yr arolygiad diwethaf, llwyddwyd i gynnal y safonau da ac i wella safonau cyflawniad disgyblion mewn Saesneg ac yn y defnydd o Saesneg ar draws y cwricwlwm.
- 122 Mae'r pennaeth, llywodraethwyr, athrawon a staff cynnal yn rhannu nodau, gwerthoedd a pholisïau eglur sy'n canolbwyntio ar anghenion disgyblion gan hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb. Mae'r pwyslais a roir ar ddarparu profiadau gwerthfawr a pherthnasol sy'n anelu at ddatblygu pob disgybl i'w lawn botensial yn nodwedd ragorol o arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol.
- 123 Mae'r staff addysgu parhaol a'r rhai dros-dro yn cydweithio'n effeithiol fel tîm gan rannu cyfrifoldebau cwricwlaidd a chyfnewid dosbarthiadau'n rheolaidd er mwyn gwneud y gorau o'u harbenigeddau mewn gwahanol feysydd. Mae'r aelod staff a benodwyd yn ddiweddar i fod â swyddogaeth arweinyddiaeth a rheolaeth, yn cyfrannu'n dda trwy gefnogi'r pennaeth wrth bennu a gwella safonau ac ansawdd.
- 124 Mae'r staff cyfan yn cydweithio'n effeithiol wrth ystyried blaenoriaethau cenedlaethol. Enillodd yr ysgol Farc Safon yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol am ddatblygu sgiliau mathemateg pen ar draws yr ysgol, a bu'r ysgol yn rhan o'r cynllun 'Darllen Mil o Eiriau' a noddwyd gan yr asiantaeth. Mae'r disgyblion a'r athrawon wedi elwa'n fawr o'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r cynlluniau 'Ysgol Iach' ac 'Ysgol Werdd'. Rhoddir cryn bwyslais ar hybu iechyd a ffitrwydd y disgyblion.
- 125 Mae'r ysgol wedi sefydlu trefn effeithiol ar gyfer rheoli a gwella perfformiad staff. Mae'r pennaeth yn cynnal trafodaethau proffesiynol ar ddechrau blwyddyn addysgol ac yn nodi targedau penodol ar gyfer staff addysgu. Mae panel o'r llywodraethwyr yn helpu i osod amcanion ar gyfer y pennaeth ac yn eu hadolygu'n flynyddol. Mae'r targedau'n heriol ac yn realistig ac yn cyd-fynd yn dda â blaenoriaethau'r ysgol.
- 126 Mae'r arweinwyr a rheolwyr yn sicrhau bod y staff yn derbyn cynhaliath a hyfforddiant priodol i'w helpu i gyrraedd eu targedau ac mae'r gweithdrefnau'n cael

eu monitro'n ofalus. Mae rhaglen hyfforddiant mewn swydd yr ysgol yn cael ei chynllunio'n ofalus er mwyn diwallu anghenion hyfforddiant unigolion yn ogystal ag anghenion datblygu'r ysgol. Mae tystiolaeth bendant bod y gweithdrefnau datblygu staff wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau cyflawniad disgyblion ac ar y ddarpariaeth. Mae ansawdd yr arweiniad, y gefnogaeth a'r ddarpariaeth ar gyfer athrawes newydd ei chymhwyso yn dda.

- 127 Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn i'r ysgol ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau'n dda gan sicrhau bod yr ysgol yn cwrdd â'r holl ofynion cyfreithiol. Maent yn deall eu swyddogaeth yn dda ac yn cyfrannu at gynllunio strategol yr ysgol drwy dderbyn a thrafod cynnwys adroddiadau manwl gan y pennaeth.
- 128 Maent yn archwilio'r adeiladau, y tir o amgylch yr ysgol, a'r adnoddau yn rheolaidd gan weithredu'n brydlon i ddileu diffygion o ran iechyd a diogelwch.
- 129 Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth dda o faterion sy'n effeithio ar berfformiad yr ysgol. Maent yn trafod canlyniadau asesiadau athrawon a'r adroddiadau hunan arfarnu ac yn eu defnyddio fel sail i helpu i osod blaenoriaethau ar gyfer gwella. Cydweithiant yn effeithiol gyda'r pennaeth wrth drafod a dod i benderfyniadau ynghylch materion staffio a'r defnydd o gyllid.

Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

- 130 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn yr adroddiad hunan arfarnu.
- 131 Mae trefniadau hunan arfarnu'r ysgol yn drylwyr ac yn effeithiol. Mae'r pennaeth a'r cydlynwyr cwricwlaidd yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i ganfod gwybodaeth am y maes y maent yn gyfrifol amdano. Maent yn casglu tystiolaeth uniongyrchol drwy archwilio gwaith disgyblion, dadansoddi canlyniadau asesiadau athrawon, ac arsylwi gwersi er mwyn cynghori a rhannu arfer dda. Maent yn archwilio, adolygu a diwygio polisiau a chynlluniau, ac yn cyflwyno a thrafod syniadau newydd yn gyson mewn cyfarfodydd staff.
- 132 Mae'r pennaeth a'r cydlynwyr cwricwlaidd yn rhannu gwybodaeth am gryfderau a gwendidau'r ysgol yn rheolaidd gyda'r llywodraethwyr trwy gyflwyno adroddiadau hunan arfarnu, a darparu cyfleoedd iddynt archwilio a thrafod enghreifftiau o waith disgyblion yn y portffolios pynciol. Mae lleiafrif o aelodau'r corff llywodraethol yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd ac yn cael cyfle i weld yr athrawon a'r disgyblion wrth eu gwaith.
- 133 Trwy'r Cyngor Ysgol, caiff y disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i drafod, mynegi barn a chyfrannu at benderfyniadau ynghylch agweddau o ddarpariaeth yr ysgol. Gweithredwyd ar nifer o'u hargymhellion, yn cynnwys gwella golwg arddangosfeydd ac addurniadau y tu fewn i'r ysgol, cynlluniau ar gyfer datblygu gardd yr ysgol, gemau a threfniant amser chwarae, gweithgaredd codi arian ac ymweliadau addysgol. Caiff

disgyblion sydd ag AAA gyfle i fynegi barn am y ddarpariaeth addysgol yn eu hadolygiad blynyddol.

- 134 Mae'r ysgol yn ceisio barn rhieni yn gyson trwy anfon holiaduron yn ymwneud â gwahanol faterion i bob cartref. Mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth ofalus i ganfyddiadau'r holiaduron ac mae wedi gwneud newidiadau neu addasiadau i'r drefn mewn sawl achos wrth weithredu ar farn y rhieni.
- 135 Mae'r arweinwyr a rheolwyr yn gwneud defnydd effeithiol o'r wybodaeth ddaw o'r drefn hunan arfarnu i osod targedau ar gyfer gwella'r ddarpariaeth a chodi safonau. Wrth gymharu perfformiad yr ysgol gydag ysgolion tebyg yn lleol ac yn genedlaethol, maent yn dod i adnabod tueddiadau mewn meysydd penodol ac yn gosod targedau priodol ar gyfer gwella.
- 136 Mae pob aelod staff yn ymwybodol o'r blaenoriaethau datblygu ac maent i gyd yn chwarae eu rhan ac yn cydweithio'n effeithiol wrth weithredu'r strategaethau. Mae'r CDY yn ddogfen ddefnyddiol sy'n cynnwys arfarniad manwl o'r cynllun blaenorol, rhestr o flaenoriaethau addas i'w datblygu a'r tasgau i'w cyflawni. Mae cyswllt effeithiol rhwng y blaenoriaethau, y cynlluniau gwariant a rhaglen datblygiad proffesiynol y staff.
- 137 Mae'r adroddiad hunan arfarnu a gynhyrchwyd gan yr ysgol cyn yr arolygiad o ansawdd da. Mae'n glir ac yn gynhwysfawr ac yn cynnig barnau gwrthrychol a gonest ar y saith cwestiwn allweddol. Mae barn y tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hunan arfarniad ym mhob un o'r saith cwestiwn allweddol.
- 138 Rhoddwyd sylw gofalus i'r materion allweddol a nodwyd yn adroddiad arolygiad diwethaf yr ysgol a llwyddwyd i gyflawni pob un o'r amcanion.

Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

- 139 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn yr adroddiad hunan arfarnu.
- 140 Mae digon o staff yn yr ysgol ar gyfer y nifer o ddisgyblion sydd ar y gofrestr ac mae ganddynt wybodaeth a chymwysterau addas sy'n eu galluogi i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol i bob disgybl. Mae pob aelod staff, gan gynnwys staff cynnal a staff ategol, yn manteisio'n gyson ar gyfleoedd gwerthfawr i ddiweddarau eu medrau drwy fynychu cyrsiau hyfforddiant mewn swydd sy'n cyd-fynd yn dda â blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer datblygiad. Mae effaith yr hyfforddiant i'w weld yn y dosbarthiadau.
- 141 Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol o arbenigeddau staff trwy gyfnewid dosbarthiadau yn rheolaidd ar gyfer addysgu celf, cerddoriaeth ac addysg gorfforol. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth gwricwlaidd ac ar safonau cyflawniad plant dan bump oed a disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol.

- 142 Mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth deg i geisio sicrhau cydbwysedd gwaith a bywyd gwell ar gyfer staff. Caiff yr athrawon gyfnodau digonol o amser digyswllt yn rheolaidd ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu, a gwnânt ddefnydd effeithiol ohono. Mae'r ysgol yn darparu amser dynodedig priodol ar gyfer cwblhau tasgau arweinyddiaeth y pennaeth.
- 143 Mae'r staff cynnal AAA a chymorthyddion y Cyfnod Sylfaen yn gweithio'n gydwobodol ac effeithiol gydag athrawon wrth gynllunio, addysgu a chofnodi cynnydd disgyblion. Maent yn dangos lefel uchel o ymroddiad a gofal wrth gefnogi'r disgyblion yn eu gwaith.
- 144 Mae'r staff gweinyddol yn gofalu bod gweithdrefnau dydd-i-ddydd yr ysgol yn effeithiol ac effeithlon, ac yn ymgymryd â thasgau clerigol a gweinyddol ar ran yr athrawon. Mae'r goruchwylwyr canol dydd, y gogyddes, a'r gynorthwywraig yn y gegin yn cyfrannu'n sylweddol at ansawdd rhagorol ymddygiad disgyblion yn ystod amser cinio ac allan ar yr iard. Mae'r ofalwraig a'r glanhawr yn gweithio'n galed i ddarparu amgylchedd glân a deniadol ar gyfer disgyblion a staff.
- 145 Mae cyflenwad da o adnoddau yn yr ysgol ar gyfer pob oedran ac ar draws holl feysydd y cwricwlwm. Maent o ansawdd da, yn adlewyrchu amrywiaeth diddordebau'r disgyblion o'r ddau ryw, ac yn sicrhau amrywiaeth ddiwylliannol mewn ffordd gadarnhaol. Maent yn hygyrch i'r disgyblion a'r staff a chant eu defnyddio'n effeithiol.
- 146 Mae'r adnoddau newydd ar gyfer hyrwyddo dysgu yn yr awyr agored yn y Cyfnod Sylfaen yn rhagorol ac yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth ar gyfer plant. Mae Cymdeithas Rieni'r ysgol yn gwneud cyfraniad gwerthfawr trwy godi symiau sylweddol o arian i wella nifer ac ansawdd yr adnoddau. Mae'r ystafell gyfrifiadurol ddarparwyd gyda chymorth eu hymgyrchoedd codi arian yn cyfrannu'n dda at godi safonau cyflawniad disgyblion mewn medrau TGCh ar draws y cwricwlwm.
- 147 Mae mwyafrif yr ystafelloedd dysgu o faint da ac yn addas ar gyfer y nifer o ddisgyblion. Er bod dwy o'r ystafelloedd dosbarth yn gyfyng, mae'r athrawon yn llwyddo'n dda i oresgyn y broblem drwy ddefnyddio'r neuadd a'r ystafell gyfrifiaduron pan fo'r disgyblion wrth eu tasgau. Mae'r neuadd yn fach ac er ei bod yn cael ei defnyddio'n rheolaidd ar gyfer sesiynau torfol ac fel ffreutur ginio, mae'n hollol anaddas ar gyfer y nifer o ddisgyblion sydd yn yr ysgol. Nid yw ychwaith yn ddigonol o ran maint ar gyfer cynnal gwersi addysg gorfforol. Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol o Ganolfan Chwaraeon yr ardal, Canolfan Gymunedol y pentref a'r cae amlwrpas cyfagos, ar gyfer gwersi a gweithgareddau addysg gorfforol.
- 148 Nid oes ystafell addas ar wahân i'r staff ei defnyddio amser cinio ac i weithio yn ystod cyfnodau digyswllt.
- 149 Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn sicrhau'r canlyniadau gorau posib i'w holl ddisgyblion trwy drafod yn rheolaidd y defnydd a wneir o adnoddau, gan gynnwys yr adnoddau ariannol sydd ar gael i'r ysgol. Mae'r cynlluniau gwariant yn y CDY yn glir ac yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau ar gyfer datblygu.
- 150 Gwnânt ddefnydd effeithiol o nawdd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ar gyfer darparu hyfforddiant estynedig i aelodau staff ar agweddau megis 'Y Blynyddoedd

Rhyfeddol' a datblygiadau'r Cyfnod Sylfaen. Mae'r ysgol yn manteisio'n llawn ar grantiau Asiantaeth Gelfyddydol Gwynedd a Môn i gyflogi artist preswyl i gyd-weithio gyda'r disgyblion ar gynlluniau celf gan ddefnyddio gwahanol gyfryngau. Dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae'r cynlluniau hyn wedi cyfrannu llawer at ddatblygiad medrau creadigol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion, ac at ethos yr ysgol yn gyffredinol.

151 Mae'r ysgol yn rhoi gwerth am arian.

Ymateb yr ysgol i'r arolygiad

Mae staff a llywodraethwyr Ysgol Waunfawr yn falch iawn o fod wedi derbyn adroddiad mor gadarnhaol sy'n adlewyrchu'r gwaith rhagorol sy'n digwydd yma. Braf yw nodi bod yr arolygwyr wedi canfod nifer o ragoriaethau a nodweddion da yn yr ysgol sy'n cadarnhau canfyddiadau ein proses a'n hadroddiad hunan arfarnu.

Ymfalchïwn yn y ffaith bod yr ysgol yn gymuned hapus, gartrefol gyda phob aelod staff yn cydweithio'n dda fel tîm er mwyn sicrhau cyfle cyfartal i bob unigolyn dan eu gofal ac i ddarparu addysg o ansawdd uchel.

Ymhyfrydwn yn y ffaith bod ansawdd ac amrywiaeth y profiadau dysgu a ddarperir i'r disgyblion yn rhagorol a bod y plant yn amlwg yn mwynhau'r profiadau cyfoethog a gwerthfawr a ddarperir ar eu cyfer.

Rydym yn falch iawn fod yr arolygwyr yn nodi bod ansawdd y gofal, y cyfarwyddyd, a'r gefnogaeth a roddir i'r disgyblion yn rhagorol, yn arbennig felly'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion gydag AAA.

Rydym hefyd yn ymfalchïo fod safonau ymddygiad, sgiliau datrys problemau , medrau gwrando, medrau creadigol , medrau personol, cymdeithasol ,moesol a medrau dysgu'r disgyblion yn elfennau rhagorol.

Edrychwn ymlaen fel ysgol i ymateb i'r argymhellion a awgrymwyd ac at yr her o gynnal ac adeiladu ar y safonau uchel sydd eisoes wedi eu cyrraedd, gan anelu at ragoriaeth. Bydd y pennaeth, y staff a'r llywodraethwyr yn ymgorffori'r argymhellion yn y CDY gan lunio cynllun gweithredu ôl arolwg.

Hoffem fel ysgol ddiolch i'r tîm am eu proffesiynoldeb a'u hynawsedd yn ystod yr arolygiad.

Atodiad 1

Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol

Enw'r ysgol	Ysgol Waunfawr
Math o ysgol	Cymuned, naturiol ddwyieithog
Ystod oedran y disgyblion	3 i 11 oed
Cyfeiriad yr ysgol	Waunfawr Caernarfon Gwynedd
Cod post	LL55 4LJ
Rhif ffôn	01286 650451

Pennaeth	Ms Gwenan Dafydd
Dyddiad penodi	Medi 2001
Cadeirydd y llywodraethwyr / Awdurdod priodol	Mrs Anna Lloyd Williams
Arolygydd cofrestredig	Jean Marshall
Dyddiadau'r arolygiad	28 – 29 Ebrill 2009

Atodiad 2

Data a dangosyddion ysgol

Nifer y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn									
Grŵp blwyddyn	M (call)	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6	Cyfanswm
Nifer y disgyblion	9.5	11	13	15	21	24	13	18	124.5

Cyfanswm nifer yr athrawon			
	Amser llawn	Rhan-amser	Cyferwerth ag amser llawn (call)
Nifer yr athrawon	4	3	5.5

Gwybodaeth staffio	
Cymhareb disgybl: athro (call) (ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig)	23:1
Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau meithrin	7.5:1
Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau arbennig	-
Cyfartaledd maint dosbarth, ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig	23
Cymhareb athro (call): dosbarth	1.1:1

Canran presenoldeb ar gyfer y tri thymor cyflawn cyn yr arolygiad			
Tymor	M	D	Gweddill yr ysgol
Haf 2008	84.9%	84.1%	93.9%
Hydref 2008	83.8%	94.5%	94.6%
Gwanwyn 2009	85%	96%	94%

Canran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim	11%
Nifer y disgyblion a gafodd eu gwahardd yn ystod y 12 mis cyn yr arolygiad	0

Atodiad 3

Canlyniadau Aseidiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol Diwedd cyfnod allweddol 1:

Canlyniadau Aseidiadau CA1 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2008			Nifer y disgyblion yn B2		20		
Canran y disgyblion ar bob lefel							
			D	W	1	2	3
Cymraeg	Aseiad athro	Ysgol			30	40	30
		Cenedlaethol		2	10	63	26
Cymraeg: llafaredd	Aseiad athro	Ysgol			30	40	30
		Cenedlaethol		2	10	62	25
Cymraeg: darllen	Aseiad athro	Ysgol			30	40	30
		Cenedlaethol		2	15	59	23
Cymraeg: ysgrifennu	Aseiad athro	Ysgol			40	55	5
		Cenedlaethol		3	19	66	12
Mathemateg	Aseiad athro	Ysgol			30	40	30
		Cenedlaethol		2	11	65	22
Gwyddoniaeth	Aseiad athro	Ysgol			25	30	45
		Cenedlaethol		1	9	66	24

Canran y disgyblion yn cyrraedd o leiaf lefel 2 mewn mathemateg, gwyddoniaeth a Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf) yn ôl aseiad athro			
Yn yr ysgol	70	Yng Nghymru	80

D Disgyblion sydd wedi'u datgymhwyso o'r trefniadau statudol
W Disgyblion sy'n gweithio tuag at lefel 1

Canlyniadau Aseidiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol
Diwedd cyfnod allweddol 2:

Canlyniadau Aseidiadau CA2 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2008			Nifer y disgyblion yn B6				23				
Canran y disgyblion ar bob lefel											
			D	A	F	W	1	2	3	4	5
Saesneg	Aseiad athro	Ysgol	0	0	0	0	0	0	4	52	43
		Cenedlaethol	0	0	0	0	1	4	16	50	29
Cymraeg	Aseiad athro	Ysgol	0	0	0	0	0	0	9	61	30
		Cenedlaethol	1	0	1	1	1	5	19	49	24
Mathemateg	Aseiad athro	Ysgol	0	0	0	0	0	0	9	39	52
		Cenedlaethol	0	0	0	0	1	3	15	50	30
Gwyddoniaeth	Aseiad athro	Ysgol	0	0	0	0	0	0	13	48	39
		Cenedlaethol	0	0	0	0	0	2	12	52	32

Canran y disgyblion yn cyrraedd o leiaf lefel 4 mewn mathemateg, gwyddoniaeth a Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf) yn ôl aseiad athro	
Yn yr ysgol	87%
Yng Nghymru	74%

- D Disgyblion a eithrir dan drefniadau statudol o ran o'r Cwricwlwm Cenedlaethol neu'r cyfan ohono
A Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel oherwydd absenoldeb
F Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel am resymau ar wahân i absenoldeb
W Disgyblion sy'n gweithio tuag at lefel 1

Atodiad 4

Sail dystiolaeth yr arolygiad

Treuliodd pedwar arolygydd, gan gynnwys arolygydd cymheiriaid, cyfwerth â saith diwrnod o ddiwrnodau arolygu yn yr ysgol. Nid oedd pennaeth yr ysgol yn gweithredu fel enwebai. Cynhaliwyd cyfarfod tîm cyn yr arolygiad.

Ymwelodd yr arolygwyr hyn â:

- phedair gwera ar ddeg, neu rannau o wersi;
- sesiynau cofrestru, gwasanaethau ac addoli ar y cyd; ac
- ystod o weithgareddau allgyrsiol.

Cafodd aelodau o'r tîm arolygu gyfarfodydd â:

- staff, llywodraethwyr a rhieni cyn yr arolygiad;
- pennaeth, athrawon, a staff cymorth a gweinyddol;
- grwpiau o ddisgyblion yn cynrychioli pob grŵp blwyddyn; a
- chynghor yr ysgol.

Bu'r tîm hefyd yn ystyried:

- adroddiad hunanarfarnu'r ysgol;
- hanner cant o ymatebion i'r holiadur i rieni, a 10 llythyr;
- dogfennau a ddarparwyd gan yr ysgol cyn ac yn ystod yr arolygiad;
- amrediad eang o waith blaenorol a phresennol disgyblion; a
- samplau o adroddiadau disgyblion.

Yn dilyn yr arolygiad, cynhaliodd y tîm arolygu gyfarfodydd â staff addysgu a llywodraethwyr.

Atodiad 5

Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu

Arolygydd	Agweddau
Mrs Jean Marshall Arolygydd Cofrestredig	Cyd-destun; Crynodeb, Argymhellion; Atodiadau Cwestiynau allweddol 1; 5; 6 a 7
Mr O Glyn Roberts Arolygydd Tîm	Cwestiynau allweddol 2; 3 a 4
Mr Wil Owen Arolygydd Lleyg	Cyfrannu at gwestiynau allweddol 1; 3; 4 a 7
Mr Eifion LI Watkins Asesydd Cymheiriaid	Cyfrannu i bob cwestiwn trwy arsylwi gwersi a thrafod gyda disgyblion

Cydnabyddiaeth:

Dymuna'r arolygwyr ddiolch i'r pennaeth, staff, llywodraethwyr, disgyblion a rhieni am eu croeso, cwrteisi a'u cydweithrediad trwy gydol cyfnod yr arolygiad.

Contractiwr:

Partneriaeth Dyfri Partnership
Awel Tywi
Llanymddyfri
Sir Gaerfyrddin
SA20 0EX